Eich asesiad cynhaliaeth plant a help i gwrdd ag amgylchiadau eithriadol

asiantaeth cynnal plant

Casglu gwybodaeth a chyfrifo

Am beth mae'r daflen hon yn sôn?

Mae'r daflen hon yn egluro sut byddwn yn gweithio allan cynhaliaeth plant ar gyfer pob achos cynhaliaeth plant a agorwyd rhwng 5 Ebrill 1993 a 2 Mawrth 2003. Gelwir yr achosion hynny yn achosion yr 'hen gynllun'. Rydym yn defnyddio rheolau gwahanol i weithio allan cynhaliaeth plant mewn achosion a sefydlwyd ar ôl 3 Mawrth 2003 sef achosion y 'cynllun presennol'.

Rydych wedi cael y daflen hon nawr oherwydd:

- rydym, yn ddiweddar, wedi adolygu'r swm o gynhaliaeth plant sy'n rhaid ei dalu yn eich achos chi, neu
- rydych wedi gofyn i ni anfon y daflen hon atoch i'ch atgoffa am sut rydym yn gweithio cynhaliaeth plant allan yn eich achos chi.

Os yw'r swm o gynhaliaeth plant sy'n rhaid ei dalu wedi newid yn eich achos chi, bydd y daflen hon yn eich helpu i ddeall pam.

Yn y daflen hon, defnyddiwn rai termau safonol i egluro ein gwasanaethau a sut rydym yn gweithio. Mae'r eirfa ar y diwedd yn egluro'r rhain.

Gwybodaeth bwysig am y daflen hon

Canllaw yn unig yw'r daflen hon ac nid yw'n cynnwys pob sefyllfa. Rydym wedi gwneud ein gorau i sicrhau fod y daflen hon yn gywir fel ar 31 Hydref 2009, ond efallai nad yw'n adlewyrchu newidiadau i'r gyfraith neu ein gweithdrefnau ar ôl y dyddiad hwn. Efallai y byddwch am gael cyngor annibynnol cyn gwneud unrhyw benderfyniadau ariannol yn seiliedig ar y daflen hon.

Amdanom ni

Yr Asiantaeth Cynnal Plant (CSA) yw gwasanaeth cynhaliaeth plant y Llywodraeth. Caiff ei ddarparu gan y Comisiwn Trefnu a Gorfodi Cynhaliaeth Plant.

Ein rôl yw sicrhau bod rhieni sy'n byw ar wahân i'w plant yn cyfrannu'n ariannol at eu cadw drwy dalu cynhaliaeth plant.

Rydym yn defnyddio proses safonol i weithio allan faint o gynhaliaeth plant sydd angen ei dalu ym mhob achos ac wedyn yn rheoli'r taliadau. Gallwn hefyd gymryd camau cyfreithiol i wneud yn siŵr bod y swm cywir yn cael ei dalu ar yr amser iawn.

Am fwy o help a gwybodaeth, ewch i'n gwefan **www.asiantaethcynnalplant.gov.uk** neu ffoniwch ni ar **0845 713 3133** neu **0845 713 8924** (ffôn testun). Neu gallwch ffonio ein llinell gymorth Gymraeg ar **0845 713 8091**. Ewch i dudalen 58 am fanylion am gostau galwadau ac amseroedd agor.

Os ydych am wneud trefniadau preifat ar gyfer cynhaliaeth plant, yn hytrach na drwy'r CSA, cysylltwch ag Opsiynau Cynhaliaeth Plant am wybodaeth ddiduedd a chymorth. Ewch i'w gwefan yn **www.cmoptions.org** neu gallwch eu ffonio ar **0800 988 0988** neu **0800 988 9888** (ffôn testun).

Cynnwys

Sut mae'r CSA yn gweithio allan cynhaliaeth plant o dan yr hen gynllun? 7

Pa newidiadau i'm hamgylchiadau sy'n rhaid i mi ddweud wrth y CSA amdanynt? 10

Sut caiff 'cynhaliaeth angenrheidiol' ei gweithio allan? 12

Sut caiff 'incwm net' ei weithio allan? 15

Sut caiff 'incwm i'w eithrio' ei weithio allan? 20

Sut byddwch yn gweithio allan faint o gynhaliaeth plant sy'n rhaid ei dalu? 28

Beth fydd yn digwydd os yw'r rhiant dibreswyl yn cael budd-daliadau? 33

Beth fydd yn digwydd os yw'r rhiant â gofal yn cael budd-daliadau? 34

Sut caiff 'incwm gwarchodedig' ei weithio allan? 35

Pam eich bod yn gweithio allan 'incwm asesu'r' rhiant â gofal? 38

Beth fydd yn digwydd os bydd y plentyn neu'r plant yn aros dros nos yn rheolaidd gyda'r rhiant dibreswyl? 40

Beth fydd yn digwydd os na fydd rhiant yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar y CSA i weithio allan cynhaliaeth plant? 42

Oes unrhyw ffactorau eraill y gall y CSA eu hystyried wrth weithio allan cynhaliaeth plant? 44

Sut gellir talu cynhaliaeth plant? 47

Beth fydd yn digwydd os bydd y rhiant dibreswyl yn rhoi arian i'r rhiant â gofal am unrhyw reswm arall? 50

Pryd a pham byddwch yn edrych eto ar faint o gynhaliaeth plant sy'n rhaid ei dalu? 51

Beth fydd yn digwydd os na fydd rhiant dibreswyl yn talu? 54

Beth fydd yn digwydd os byddaf yn anghytuno â phenderfyniad y CSA? 56

Ble gallaf gael mwy o help a gwybodaeth? 58

Sut mae'r CSA yn gweithio allan cynhaliaeth plant o dan yr hen gynllun?

Mae cynhaliaeth plant yn gymorth ariannol rheolaidd a dibynnol sy'n helpu tuag at gostau byw'r plentyn o ddydd i ddydd. Mae'r rhiant sydd ddim yn brif ofalwr dyddiol y plentyn (y rhiant dibreswyl) yn talu cynhaliaeth plant i'r rhiant sy'n brif ofalwr dyddiol (y rhiant â gofal). Mewn rhai achosion gallai'r person hwn fod yn nain neu daid neu warcheidwad.

Rydym yn defnyddio gwybodaeth gan y ddau riant i benderfynu os oes rhaid i rywun dalu cynhaliaeth plant ac i weithio allan faint o gynhaliaeth plant sy'n rhaid ei dalu. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am:

- faint o incwm mae'r ddau ohonoch yn ei gael
- faint o blant eraill sy'n byw gyda chi
- oed y plentyn neu blant y bydd y gynhaliaeth yn cael ei thalu ar eu cyfer, a
- eich costau tai.

Gallwn hefyd ddefnyddio gwybodaeth gan gyflogwr y naill riant, y Ganolfan Byd Gwaith a Chyllid a Thollau EM (HMRC).

Y rheswm pam ein bod yn gofyn i'r rhiant â gofal am fanylion eu hincwm yw fel y gallwn ystyried beth allant ei gyfrannu at ofalu am eu plentyn wrth i ni weithio allan faint o gynhaliaeth plant sy'n rhaid ei dalu.

Am fwy o wybodaeth am sut rydym yn defnyddio'r wybodaeth rydym yn gofyn i chi amdani, darllenwch ein taflen *Sut mae'r Asiantaeth Cynnal Plant yn defnyddio ac yn storio gwybodaeth?* (CSL311W). Ewch i'r dudalen olaf am fanylion am sut i gael copi.

Gweithio allan faint o gynhaliaeth plant sy'n rhaid ei dalu.

Er mwyn gweithio allan faint o gynhaliaeth plant sydd yn rhaid ei dalu, rydym yn dilyn proses safonol sydd wedi ei gosod yn y gyfraith. Mae'r 6 cam hyn yn dangos sut mae'n gweithio'n gyffredinol. Mae eglurhad mwy manwl yn yr adrannau sy'n dilyn.

1 Yn ddibynnol ar nifer ac oedran y plant, byddwn yn gosod swm sylfaenol o arian sydd ei angen yn wythnosol i edrych ar ôl y plentyn, neu blant. Gelwir hyn yn 'cynhaliaeth angenrheidiol'.

2 Byddwn yn edrych ar y swm o incwm mae'r ddau riant yn ei gael ar ôl i dreth, Yswiriant Gwladol a rhai cyfraniadau i bensiwn galwedigaethol neu bersonol gael eu tynnu oddi arno. Gelwir hyn yn 'incwm net'.

3 Nesaf, byddwn yn edrych ar faint yw costau byw'r ddau riant o ddydd i ddydd – fel costau tai, unrhyw gostau teithio i'r gwaith, a'r swm sy'n rhaid iddynt ei dalu er mwyn cynnal unrhyw blant sy'n byw gyda hwy.

Nid yw hyn yn cynnwys llysblant. Mae'r costau ar gyfer cynnal plant eraill yn seiliedig ar symiau safonol sydd wedi eu gosod ar gyfer pob plentyn gan y gyfraith. Hefyd mae'r gyfraith yn gosod symiau safonol ar gyfer gweithio allan y costau am deithio i'r gwaith. Gelwir yr arian sydd ei angen arnynt ar gyfer y costau hyn yn 'incwm i'w eithrio'.

4 Byddwn yn tynnu'r incwm i'w eithrio o incwm net y rhiant dibreswyl er mwyn ein gadael gyda'r swm o incwm a ddefnyddiwn i weithio allan faint o gynhaliaeth plant y dylent ei dalu. Gelwir hyn yn 'incwm y gellir ei asesu'.

5 Yna byddwn yn gweithio allan faint o gynhaliaeth plant sy'n rhaid i'r rhiant dibreswyl ei dalu gan ddefnyddio fformiwla safonol. Fel arfer mae hyn yn cyfateb i 50c ar gyfer pob £1 o'u hincwm y gellir ei asesu hyd nes y cwrddir â'r gynhaliaeth sydd ei hangen.

6 Mewn rhai achosion, gallai hyn olygu na fyddai gan y rhiant dibreswyl ddigon o arian yn weddill i fyw arno nac i gynnal unrhyw ail deulu sydd ganddynt. Er mwyn sicrhau bod ganddynt ddigon o arian i fyw arno, anelwn at sicrhau nad oes yn rhaid i rieni dibreswyl dalu mwy na 30% o'u hincwm net mewn cynhaliaeth plant. Rydym yn gwneud hyn drwy weithio allan lefel o 'incwm gwarchodedig' ar gyfer rhieni dibreswyl. Yr unig wahaniaeth i hyn yw os oes rhaid iddynt glirio dyledion yn deillio o daliadau hwyr neu fethu taliadau. Yn achos hynny, gallant orfod talu hyd at 40%.

Pa newidiadau i'm hamgylchiadau sy'n rhaid i mi ddweud wrth y CSA amdanynt?

Os bydd amgylchiadau'r naill riant yn newid, gall olygu y bydd angen newid y swm o gynhaliaeth sy'n rhaid ei dalu. Felly dylech ddweud wrthym os oes newid i unrhyw wybodaeth a roddoch i ni er mwyn gweithio allan cynhaliaeth plant, fel swm yr incwm mae'r rhiant dibreswyl yn ei gael.

Yn enwedig, os mai chi yw'r rhiant dibreswyl, **rhaid** i chi ddweud wrthym os:

- bydd eich cyfeiriad yn newid (**rhaid** i chi ddweud wrthym am hyn o fewn 7 diwrnod o'r newid)
- ydych yn talu cynhaliaeth plant drwy orchymyn didynnu o enillion a'ch bod yn gadael eich swydd. **Rhaid** i chi ddweud wrthym:
  - enw a chyfeiriad eich cyflogwr newydd (os o gwbl)
  - faint y disgwyliwch ei ennill, a'ch
  - rhif cyflogres (os o gwbl).

Os mai chi yw'r rhiant â gofal, **rhaid** i chi ddweud wrthym os oes newid i'r:

- nifer o blant sy'n byw gyda chi ac sy'n rhaid i'r rhiant dibreswyl dalu cynhaliaeth plant ar eu cyfer, neu
- nifer y nosweithiau mae plentyn yn aros dros nos gyda'r rhiant dibreswyl yn rheolaidd.

Os byddwch yn methu â rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnom, neu os byddwch yn rhoi gwybodaeth i ni y gwyddoch sy'n ffug, gallwn fynd a chi i'r llys a gallech gael dirwy o hyd at £1,000. Mae hyn yn gymwys i unrhyw berson neu gorff sy'n ofynnol iddynt, yn ôl y gyfraith, i roi gwybodaeth – fel cyflogwyr a chyfrifwyr yn ogystal â rhieni.

Ni fydd pob newid mewn amgylchiadau yn golygu y byddwn angen newid y swm o gynhaliaeth plant sy'n rhaid ei dalu.

Sut caiff ‘cynhaliaeth angenrheidiol’ ei gweithio allan?

Cynhaliaeth angenrheidiol, neu’r ‘gynhaliaeth sydd ei hangen’, yw’r swm o arian sydd ei angen i dalu am gostau sylfaenol gofalu am blentyn neu blant o ddydd i ddydd. Weithiau caiff ei alw’n ‘gofyniad cynhaliaeth’.

Mae’r gynhaliaeth sydd ei hangen yn seiliedig ar y nifer o blant sy’n rhaid talu cynhaliaeth plant ar eu cyfer ac oedran y plant hynny. Nid yw’n ystyried incwm y rhieni nac unrhyw amgylchiadau arbennig yn ymwneud â gofalu am blentyn.

Caiff ei gweithio allan drwy gyfuno:

- ar gyfer pob plentyn sy’n rhaid talu cynhaliaeth ar ei gyfer, swm sy’n cyfateb i’r lwfans personol Cymhorthdal Incwm ar gyfer plentyn o’r oed hwnnw, a
- swm sy’n cyfateb â’r premiwm teulu Cymhorthdal Incwm, a
- swm ychwanegol yn seiliedig ar oedran y plentyn ieuengaf sydd angen cynhaliaeth plant ar ei gyfer. Gelwir hyn yn lwfans gofalwr. Nid cynhaliaeth ar gyfer y plant yw hyn, ond rydym yn ei gynnwys gan fod angen gofal gan oedolyn ar blant. Caiff y lwfans gofalwr hwn ei leihau 25% os yw’r plentyn ieuengaf yn 11, 12 neu 13, neu caiff ei leihau i 50% os yw’r plentyn ieuengaf yn 14 neu 15. Bydd y lwfans gofalwr yn gorffen pan fydd y plentyn ieuengaf yn 16.

Yna caiff y swm o Fudd-dal Plant mae'r rhiant â gofal yn ei gael ei dynnu oddi ar y swm hwn. Mae mwy o wybodaeth hefyd ar gael ar ein gwefan sef **www.asiantaethcynnalplant.gov.uk**

Enghraifft

Mae Luke a Kelly wedi gwahanu. Mae ganddynt un plentyn, Lisa, sydd yn 8 oed ac yn byw gyda Kelly.

- Y lwfans personol wythnosol ar gyfer Lisa yw: £56.11
- Y premiwm teulu wythnosol yw: £17.30
- Gan fod Lisa o dan 11 oed, y swm lwfans gofalwr wythnosol yw: £64.30

Os byddai'n hŷn, byddai'r swm yn is gan y byddai swm y lwfans gofalwr yn is.

- Mae'r rhain yn rhoi cyfanswm o: £137.71
- Y Budd-dal Plant wythnosol a delir ar gyfer Lisa yw: £20.00
- **Y swm wythnosol o gynhaliaeth angenrheidiol yw £137.71 – £20.00 £117.71**

Nid dyma o reidrwydd fydd y swm sy'n rhaid i Luke ei dalu gan nad yw'r swm hwn yn ystyried ei incwm nac unrhyw amgylchiadau arbennig a allai fod ganddo.

Mae'r enghraifft hwn yn defnyddio cyfraddau oedd yn gywir yn Ebrill 2009. I weld beth yw'r lwfansau a phremiymau diweddaraf, darllenwch *Cyfraddau Budd-daliadau a Phensiynau (BRA5DWPW)*. Gallwch gael y ddogfen hon gan y Ganolfan Byd Gwaith ac o'r mwyafrif o Swyddfeydd Post. Gallwch lawr-lwytho copi o **www.canolfanbydgwaith.gov.uk**

Sut caiff 'incwm net' ei weithio allan?

Incwm net yw'r swm wythnosol o incwm mae pob rhiant yn ei dderbyn o gyflog neu fudd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm (Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm) neu Gredyd Pensiwn, ar ôl tynnu:

- y swm sy'n rhaid iddynt dalu mewn treth incwm ac Yswiriant Gwladol
- unrhyw incwm o gyfranddaliadau neu unrhyw fuddsoddiadau eraill, a
- hanner unrhyw swm a delir i mewn i bensiwn galwedigaethol neu bersonol. Os trefnwyd y pensiwn er mwyn talu morgais, dim ond 37.5% o'r arian a delir i'r cynllun pensiwn gaiff ei dynnu o'r incwm.

Beth gaiff ei gynnwys yn incwm net wythnosol rhiant?

Pan fyddwn yn gweithio allan faint o incwm mae pob rhiant yn ei gael, rydym yn cynnwys:

- enillion o gyflogaeth, gan gynnwys goramser a bonysau
- enillion o hunangyflogaeth
- budd-daliadau sy'n ymwneud ag incwm
- Credyd Pensiwn
- unrhyw arian a geir o gynllun pensiwn galwedigaethol neu bersonol

- unrhyw arian a geir o fuddsoddiadau fel incwm o rentu allan eiddo, llog ar gyfrifon banc neu gymdeithasau adeiladu neu ddifidendau o gyfranddaliadau
- incwm o Gredyd Treth Gwaith (mewn rhai achosion), ac
- incwm o'r budd-daliadau neu daliadau canlynol:
  - Lwfans Gofalwr
  - Bonws Nadolig
  - Budd-dal Analluogrwydd
  - Lwfans Mamolaeth a Thâl Mamolaeth Statudol
  - Lwfans Anabledd Difrifol
  - Tâl Salwch Statudol.

Os caiff enillion o gyflogaeth eu talu bob mis, byddwn yn gweithio allan beth yw'r swm wythnosol ar gyfartaledd. Er mwyn gwneud hyn, byddwn yn lluosi'r enillion misol gyda 12 ac yna'n rhannu'r swm hwnnw gyda 52.

Os bydd enillion o gyflogaeth yn newid o un wythnos i'r llall neu o fis i fis, byddwn yn gweithio allan y swm ar gyfartaledd ar gyfer enillion o gyflogaeth. Byddwn yn gwneud hyn drwy ofyn i'r rhiant dibreswyl (neu eu cyflogwr) roi gwybodaeth i ni am faint maent yn ennill bob wythnos – fel eu slipiau cyflog – dros nifer o gyfnodau talu. Fel arfer, byddwn yn defnyddio 5 cyfnod talu i weithio allan y cyfartaledd, ond gallwn ddefnyddio mwy.

Enghraifft

Mae enillion o gyflogaeth Joe yn newid bob wythnos, yn dibynnu ar faint o oriau mae wedi eu gweithio.

- Yn wythnos 1, mae Joe yn ennill: £315
- Yn wythnos 2, mae Joe yn ennill: £360
- Yn wythnos 3, mae Joe yn ennill: £325
- Yn wythnos 4, mae Joe yn ennill: £300
- Yn wythnos 5, mae Joe yn ennill: £375
- Dros 5 wythnos, mae Joe wedi ennill: £1675

Ei enillion ar gyfartaledd yw £1675 wedi ei rannu gyda 5 £335

Yna byddwn yn tynnu'r symiau mae Joe yn eu talu bob wythnos ar gyfer treth incwm, Yswiriant Gwladol ac i mewn i gynllun pensiwn i weithio allan yr incwm wythnosol net.

Beth sydd ddim yn cael ei gynnwys mewn incwm net rhiant?

Wrth weithio allan faint o incwm mae rhiant yn ei gael bob wythnos, ni fyddwn yn cynnwys rhai budd-daliadau, fel:

- Lwfans Gweini
- Budd-dal Plant
- Budd-dal Treth Cyngor
- Lwfans Byw i'r Anabl neu Lwfans Gweithio i'r Anabl
- Lwfans Gwarcheidwad
- Budd-dal Tai, a
- Taliadau o'r Gronfa Gymdeithasol.

Nid ydym yn cynnwys incwm unrhyw bartner sy'n byw gyda'r rhiant wrth weithio allan yr incwm net. Ond byddwn yn defnyddio incwm partner mewn rhannau eraill o'r cyfrifiad i weithio allan faint o gynhaliaeth sy'n rhaid ei dalu, fel incwm gwarchodedig.

Hefyd, nid ydym yn cynnwys:

- Enillion unrhyw blentyn sy'n byw gyda'r rhiant, neu
- hyd at £10 yr wythnos o incwm plentyn sydd heb ei ennill (fel arian gaiff ei etifeddu gan berthynas neu log o gyfrif banc).

Os oes gan y plentyn incwm heb ei ennill sy'n fwy na £10 yr wythnos, byddwn yn ei gynnwys wrth weithio allan faint o incwm net sydd gan y rhiant maent yn byw gyda hwy. Os credwch fod hyn yn berthnasol i'ch achos chi, cysylltwch â ni i'w drafod.

Sut caiff 'incwm net' ei weithio allan os yw'r rhiant dibreswyl yn hunangyflogedig?

Os yw'r rhiant dibreswyl yn hunangyflogedig, byddwn fel arfer yn gweithio allan eu henillion wythnosol ar gyfartaledd ar gyfer y flwyddyn dreth ddiweddaraf. Ond, os na allwn wneud hyn os yw'r rhiant dibreswyl dim ond newydd ddechrau gwaith hunangyflogedig, defnyddiwn fanylion incwm gros y busnes – golygai hyn yr holl arian mae wedi ennill.
Er mwyn gweithio allan enillion y rhiant dibreswyl byddwn yn tynnu'r canlynol oddi ar incwm gros y busnes:

- unrhyw dreuliau rhesymol a delir i redeg y busnes (heb gynnwys gwario cyfalaf neu dreuliau adloniant), a
- TAW (treth ar werth).

Unwaith byddwn wedi gweithio allan enillion y rhiant dibreswyl, byddwn wedyn yn gweithio allan eu hincwm net yn y ffordd a ddisgrifir ar dudalen 15.

Sut caiff ‘incwm i’w eithrio’ ei weithio allan?

Caniateir i bob rhiant gadw rhan o’u hincwm net i dalu am eu costau byw sylfaenol, gan gynnwys talu am gostau byw unrhyw o’u plant eu hunan sy’n byw gyda hwy. Gelwir hyn yn ‘incwm i’w eithrio’.

Gall gynnwys costau tai rhesymol a rhai costau teithio i’r gwaith, yn ogystal â swm safonol sy’n cyfateb â’r lwfans personol Cymhorthdal Incwm ar gyfer person sengl. Nid yw’n cynnwys lwfansau ar gyfer eich partner, llysblant neu bobl eraill sy’n byw yng nghartref y rhiant.

Byddwn yn gweithio’r incwm i’w eithrio allan ar gyfer **pob** rhiant drwy gyfuno’r canlynol:

- Swm sy’n cyfateb i’r lwfans personol Cymhorthdal Incwm ar gyfer person sengl.
- Swm sy’n cyfateb i’r lwfans personol Cymhorthdal Incwm ar gyfer plentyn ar gyfer pob plentyn y telir cynhaliaeth ar ei gyfer ac sy’n byw gyda’r rhiant, yn ogystal â swm sy’n cyfateb i’r premiwm teulu Cymhorthdal Incwm. Gall swm y lwfans personol newid ar gyfer pob plentyn yn dibynnu ar eu hoedran.
- Swm sy’n cyfateb i’r lwfans personol Cymhorthdal Incwm ar gyfer pob plentyn sydd gan y rhiant gyda phartner newydd ac sy’n byw gyda’r rhiant. Os yw’r rhiant yn byw gyda phartner all dalu tuag at gostau byw dyddiol y plant hyn, byddwn yn

haneru'r symiau hyn. (Nid yw hyn yn effeithio ar y symiau a ganiateir ar gyfer y plant y telir cynhaliaeth ar eu cyfer, rydym wedi egluro hyn isod.)

- Swm ar gyfer costau tai rhesymol am y lle mae'r rhiant yn byw ynddo. Ceir mwy o fanylion am gostau tai yn yr adran nesaf.
- Lwfans ar gyfer costau teithio gwaith i unrhyw riant sy'n gorfod teithio mwy na 240 cilomedr yr wythnos (tua 150 milltir) er mwyn mynd i'r gwaith ac yn ôl, wedi ei fesur mewn llinell syth. Am bob cilomedr a deithir i'r gwaith sydd dros y 240 cilomedr gall y rhiant hawlio 6c fel incwm i'w eithrio. Nid yw hyn yn gymwys i rieni sy'n hunangyflogedig, neu os yw eu cyflogwr yn rhoi help tuag at gostau teithio.

Enghraifft

Mae Luke a Kelly wedi gwahanu. Mae ganddynt un plentyn, Lisa, sydd yn 8 oed ac yn byw gyda Kelly.

Mae Luke yn byw ar ei ben ei hun ac yn teithio pellter byr i'r gwaith ar drafnidiaeth gyhoeddus.

- Lwfans personol wythnosol Luke yw: £64.30
- Lwfans plentyn wythnosol Luke yw: £0

(am nad oes ganddo blant yn byw gydag ef)

- Mae Luke yn talu rhent wythnosol o: £75.70

(nid yw'n cael unrhyw Fudd-dal Tai)

- Lwfans teithio i'r gwaith wythnosol Luke yw: £0

(mae hyn am fod cyfanswm ei deithiau i'r gwaith bob wythnos yn llai na 240 cilomedr)

- Incwm i'w eithrio wythnosol Luke yw £64.30 + £75.70 = £140

Mae Kelly yn byw gyda Ben nawr ac mae ganddynt fab sy'n 18 mis oed. Mae ef hefyd yn byw gyda hwy, a merch Kelly, sef Lisa.

- Lwfans personol wythnosol Kelly yw: £64.30
- Lwfans plentyn wythnosol Kelly ar gyfer dau blentyn yw: £101.91

(caiff hwn ei weithio allan drwy gyfuno'r lwfansau Cymhorthdal Incwm ar gyfer Lisa (£56.11), y lwfans Cymhorthdal incwm ar gyfer eu mab (£28.50) a'r premiwm teulu Cymhorthdal Incwm (£17.30).)

- Mae taliad morgais wythnosol Kelly a Ben yn: £85

(nid ydynt yn cael unrhyw Fudd-dal Tai)

- Lwfans teithio i'r gwaith wythnosol Kelly yw: £0

(am nad yw Kelly yn gweithio)

- Incwm i'w eithrio wythnosol Kelly yw
  £64.30 + £101.91 + £85 = £251.21

Mae'r enghraifft hwn yn defnyddio cyfraddau oedd yn gywir yn Ebrill 2009. I weld beth yw'r lwfansau a phremiymau diweddaraf, darllenwch *Cyfraddau Budd-daliadau a Phensiynau (BRA5DWPW)*. Gallwch gael y ddogfen hon gan y Ganolfan Byd Gwaith ac o'r mwyafrif o Swyddfeydd Post. Gallwch lawr-lwytho copi o **www.canolfanbydgwaith.gov.uk**

Os yw rhiant yn hawlio Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth a'u bod hwy, neu eu plentyn sy'n byw gyda hwy, yn gymwys i gael premiymau anabledd, anabledd difrifol neu bremiymau gofalwyr, gallwn gynyddu eu hincwm i'w eithrio drwy ychwanegu swm sy'n cyfateb i'r swm y byddant yn ei gael am y premiymau hynny.

Os yw'r rhiant dibreswyl wedi trosglwyddo eiddo neu arian i'r rhiant â gofal fel rhan o setliad gorchymyn llys neu gytundeb cynhaliaeth a wnaed cyn 5 Ebrill 1993, gall hyn hefyd effeithio ar yr incwm i'w eithrio. Mae'n rhaid bod yr eiddo neu'r arian a drosglwyddwyd yn werth £5000 neu fwy.

Gweithio allan costau tai fel rhan o incwm i'w eithrio

Mae costau tai rhesymol yn rhan sylweddol o incwm i'w eithrio. Ar gyfer rhieni â gofal, bydd y costau tai a gaiff eu hystyried ar gyfer incwm i'w eithrio fel arfer yn cynnwys eu taliadau rhent neu daliadau morgais, neu unrhyw gostau eraill y byddai gan y rhiant hawl i wneud cais am Fudd-dal Tai ar eu cyfer (er enghraifft llety a phreswyl). Y swm byddwn yn ei ganiatáu fydd y costau tai ar ôl didynnu unrhyw Fudd-dal Tai a.

Ar dudalen 26, ceir mwy o wybodaeth am beth allwn gynnwys fel costau tai ar gyfer gwahanol fathau o daliadau morgais.

Ar gyfer rhieni dibreswyl, bydd y costau tai a gaiff eu hystyried ar gyfer incwm i'w eithrio fel arfer yn hyd at £80 yr wythnos neu hanner eu hincwm net – pa bynnag un sydd fwyaf. Dyma'r swm y byddwn yn ei gynnwys fel arfer hyd yn oed os yw eu costau tai gwirioneddol yn uwch na hyn. Mewn rhai amgylchiadau – fel pan fo plant eraill yn byw gyda'r rhiant dibreswyl – gallwn gynnwys swm uwch o gostau tai yn incwm i'w eithrio y rhiant dibreswyl. Os credwch y gallai hyn fod yn gymwys i'ch achos chi, ffoniwch ni i gael gwybod mwy am hyn.

Nid ydym yn cyfrif y canlynol yn gostau tai fel rhan o incwm i'w eithrio:

- Treth Cyngor
- yswiriant eiddo a chynnwys
- taliadau am danwydd, dŵr neu wasanaethau carthffosiaeth, neu wasanaethau fel bwyd a golchi
- taliadau cynnal eiddo, oni bai bo'n rhaid i'r rhiant dalu'r taliadau hynny fel rhan o delerau eu tenantiaeth neu fel amod y les.

Os nad oes gan riant unrhyw gyfrifoldeb dros dalu rhent neu forgais ar gyfer y lle maent yn byw ynddo, ni fyddwn fel arfer yn cynnwys unrhyw gostau tai fel rhan o'u hincwm i'w eithrio. Fel arfer bydd hyn oherwydd eu bod yn byw yn eiddo rhywun arall – er enghraifft, yn byw gyda ffrind neu aelod o'r teulu sy'n hawlio Cymhorthdal Incwm neu Fudd-dal Tai. Ond os bydd gan y rhiant dibreswyl gostau tai wrth fyw yng nghartref rhywun arall, gallwn gynnwys y costau hyn yn yr incwm gwarchodedig. (Rydym yn egluro hyn ar dudalen 35.)

Os bydd rhiant yn defnyddio'r eiddo maent yn byw ynddo yn rhannol ar gyfer busnes, dim ond y swm a delir am y rhan maent yn byw ynddo y gallwn ei gynnwys fel costau tai.

Gweithio allan costau tai os oes gan riant forgais

Os yw rhiant yn berchen ar y tŷ maent yn byw ynddo, ac yn talu morgais arno, mae rheolau ynglŷn â beth sy'n cyfrif fel costau tai tuag at incwm i'w eithrio. Mae'r uchafswm a'r eithriadau a gafodd eu crybwyll eisoes yn parhau i fod yn gymwys. Mae gwahanol reolau yn gymwys i weithio allan costau tai ar gyfer incwm gwarchodedig.

- Os oes gennych forgais ad-dalu, gallwn gynnwys y swm rydych yn ei ad-dalu bob wythnos fel costau tai. Mae hyn yn cynnwys taliadau ar gyfer:
  - llog
  - cyfalaf
  - yswiriant diogelu taliadau morgais, ac
  - unrhyw yswiriant arall (er enghraifft, yswiriant bywyd neu i ddiogelu yn erbyn salwch difrifol neu ddiweithdra), rydych wedi ei gymryd allan er mwyn ad-dalu benthyciad neu forgais.

Gan bod taliadau yn cael eu gwneud yn fisol fel arfer, yn gyffredinol, byddwn yn lluosi'r ad-daliad misol gyda 12 ac yna'n rhannu'r swm hwnnw gyda 52 er mwyn gweithio allan yr ad-daliad wythnosol.

- Os oes gennych **forgais gwaddol**, gallwn gynnwys swm ar gyfer llog y morgais fel costau tai yn ogystal â'r swm a delir am y polisi gwaddol.
- Os yw'ch **morgais ynghlwm â Chyfrif Cynilo Unigol (ISA)** neu gynllun cynilo arall tebyg, a'i fod ar gyfer:
  - **llai na £60,000** gallwn gynnwys y swm llawn a dalwch i'r cynllun bob mis fel costau tai, neu
  - **mwy na £60,000** dim ond y swm fyddai'n ddigon i ad-dalu'r benthyciad gwreiddiol y gallwn ei gynnwys fel costau tai.
- Os yw'ch **morgais ynghlwm â phensiwn personol** dim ond 25% o'r swm a dalwch i'r pensiwn y gallwn ei gynnwys fel costau tai.

Ar gyfer pob perchennog eiddo, gallwn gynnwys y swm a dalwch ar gyfer polisi diogelu morgais fel costau tai.

Sut byddwch yn gweithio allan faint o gynhaliaeth plant sy'n rhaid ei dalu?

Rydym yn gweithio allan y swm o gynhaliaeth plant sy'n rhaid ei dalu drwy ddefnyddio fformiwla safonol ar gyfer 'incwm asesu'r' rhiant dibreswyl a'r rhiant â gofal.

Yr incwm asesu yw'r incwm net, llai yr incwm i'w eithrio.

Yn gyffredinol, byddwn yn gofyn i rieni dibreswyl dalu 50c ar gyfer pob £1 o'u hincwm asesu hyd nes byddant yn talu'r gynhaliaeth sydd ei hangen ar gyfer eu plentyn neu blant.

Yr isafswm o gynhaliaeth plant sy'n rhaid i riant dibreswyl ei dalu bob wythnos yw £6.50 (yn seiliedig ar gyfraddau Cymhorthdal Incwm o Ebrill 2009). Os byddwn yn gweithio allan fod y swm o gynhaliaeth plant sy'n rhaid ei dalu yn llai na £6.50, bydd y rhiant dibreswyl yn dal yn gorfod talu'r isafswm, oni bai:

- na allant fforddio i dalu'r swm hwn gan fod eu hincwm net yn llai na £6.50
- eu bod yn y carchar
- eu bod o dan 16 oed (ac felly yn blentyn eu hunan at ddibenion cynhaliaeth plant)
- eu bod o dan 18 ac mewn addysg llawn amser ac nad oes ganddynt unrhyw incwm heblaw grantiau neu fenthyciadau myfyrwyr
- bod ganddynt blant eraill yn eu cartref, neu

- eu bod yn cael un o'r budd-daliadau hyn
  - Lwfans Gofalwr
  - Lwfans Byw i'r Anabl neu Lwfans Gweithio i'r Anabl
  - Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
  - Budd-dal Analluogrwydd
  - Budd-dal Anabledd Diwydiannol
  - Lwfans Mamolaeth neu Dâl Mamolaeth Statudol
  - Lwfans Anabledd Difrifol
  - Budd-dal Anabledd Rhyfel.

Byddwn yn anfon llythyr at y ddau riant yn egluro yn union pa wybodaeth rydym wedi ei defnyddio i weithio allan y swm sy'n rhaid ei dalu a beth allant ei wneud os ydynt yn anghytuno â'r swm hwn.

Beth fydd yn digwydd os na all y rhiant dibreswyl fforddio i dalu'r swm hwn o gynhaliaeth plant?

Mewn rhai achosion, gallai talu'r swm llawn o gynhaliaeth sydd ei hangen olygu na fyddai gan y rhiant dibreswyl ddigon o arian i fyw arno neu i gynnal unrhyw ail deulu sydd ganddynt.

Er mwyn sicrhau bod ganddynt ddigon o arian i fyw arno, anelwn at sicrhau nad oes rhaid i rieni dibreswyl dalu mwy na 30% o'u hincwm net mewn cynhaliaeth plant. Rydym yn gwneud hyn drwy weithio allan lefel o 'incwm gwarchodedig' ar gyfer rhieni dibreswyl. Os byddai'r swm o gynhaliaeth plant fyddai'n rhaid iddynt ei dalu yn golygu na fyddant yn gallu cadw'r incwm gwarchodedig hwn, yna gallwn leihau'r swm sy'n rhaid iddynt ei dalu.

Fodd bynnag, os oes rhaid iddynt glirio dyledion yn deillio o daliadau hwyr neu o fethu taliadau, gallant orfod talu hyd at 40% o'u hincwm net.

Nid yw incwm gwarchodedig yr un fath ag incwm i'w eithrio ac rydym yn ei weithio allan mewn ffordd wahanol. Gallwch gael mwy o wybodaeth am incwm gwarchodedig ar dudalen 35.

Beth fydd yn digwydd os gall rhiant dibreswyl fforddio i dalu mwy o gynhaliaeth plant?

Mewn rhai achosion, pan fyddwn wedi gweithio allan y swm o gynhaliaeth plant sy'n rhaid ei dalu, gallai fod gan y rhiant dibreswyl incwm asesu'n weddill. Os yw'r incwm asesu'n fwy na dwywaith y gynhaliaeth sydd ei hangen, yn ôl y gyfraith, gallwn gynyddu'r swm o gynhaliaeth plant sy'n rhaid i'r rhiant dibreswyl ei dalu. Ni fyddwn yn gwneud hyn os yw'r incwm asesu'n llai na dwywaith y gynhaliaeth sydd ei hangen.

Byddwn yn gweithio allan y swm ychwanegol hwn yn dibynnu ar y nifer o blant sy'n rhaid talu cynhaliaeth plant ar eu cyfer.

- Os oes rhaid talu cynhaliaeth plant ar gyfer un plentyn, bydd rhaid i'r rhiant dibreswyl dalu swm ychwanegol o 15% o'u hincwm asesu sy'n weddill ar ôl didynnu'r swm sylfaenol o gynhaliaeth.
- Os oes rhaid talu cynhaliaeth plant ar gyfer 2 o blant, y swm ychwanegol yw 20% o'r incwm asesu sy'n weddill.
- Os oes rhaid talu cynhaliaeth plant ar gyfer 3 o blant neu fwy, y swm ychwanegol yw 25% o'r incwm asesu sy'n weddill.

Enghraifft

Mae Steve a Rosemary wedi ysgaru ac mae ganddynt un plentyn sy'n 10 oed ac yn byw gyda Rosemary. Nid yw Rosemary yn gweithio.

- Y gynhaliaeth wythnosol sydd ei hangen ar gyfer eu plentyn yw: £64.40
- Incwm asesu wythnosol Steve yw: £180.00

Mae Steve yn talu cynhaliaeth plant ar gyfradd o 50c am bob £1 o'i incwm asesu hyd nes ei fod yn talu'r gynhaliaeth sydd ei hangen ar gyfer ei blentyn. Mae gan Steve ddigon o incwm asesu i dalu'r holl gynhaliaeth sydd ei hangen (£128.80 x 50c = £64.40).

- Swm yr incwm asesu sy'n weddill ar ôl i Steve dalu'r swm sylfaenol yw £180 – £128.80 = £51.20

Am fod gan Steve incwm asesu'n weddill, rhaid iddo dalu swm ychwanegol o gynhaliaeth plant hefyd. Mae'r swm ychwanegol hwn ar gyfer un plentyn, felly bydd yn seiliedig ar 15% o'r incwm asesu sy'n weddill (£51.20)

- 15% o £51.20 yw: £7.68
- Cyfanswm y gynhaliaeth plant wythnosol sy'n rhaid i Steve ei dalu yw: £64.40 + £7.68 = £72.28

Beth fydd yn digwydd os yw'r rhiant dibreswyl yn cael budd-daliadau?

Os yw'r rhiant dibreswyl yn cael budd-daliadau yn seiliedig ar incwm neu fod eu partner yn eu cael ar eu cyfer, nid oes ganddynt unrhyw incwm asesu ac felly nid oes rhaid iddynt dalu'r swm llawn o gynhaliaeth plant.

Serch hynny efallai y byddant dal yn gorfod talu cyfraniad tuag at gynhaliaeth plant o'r budd-daliadau hyn. Dyna pam ein bod dal yn gweithio allan:

- y gynhaliaeth sydd ei hangen
- incwm net y rhiant dibreswyl, ac
- incwm i'w eithrio y rhiant dibreswyl.

Beth fydd yn digwydd os yw'r rhiant â gofal yn cael budd-daliadau?

Os ydych chi neu'ch partner yn cael budd-daliadau yn ymwneud ag incwm (sef Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm) neu Gredyd Pensiwn ac yn cael cynhaliaeth plant, **efallai** na fydd y rhiant â gofal yn cael y swm llawn o fudd-daliadau.

Anelwn at drosglwyddo'r swm llawn o gynhaliaeth plant i'r rhiant â gofal o fewn un wythnos o'i dderbyn gan y rhiant dibreswyl. Caniateir i'r rhiant â gofal gadw'r £20 cyntaf o'r gynhaliaeth plant dalwyd, cyn iddo gael ei ystyried fel incwm sydd yn effeithio ar ei budd-daliadau.

Os ydych yn derbyn cynhaliaeth plant ac rydych chi neu eich partner yn cael budd-daliadau yn ymwneud ag incwm, mae'n **rhaid** i chi ddweud wrth y Ganolfan Byd Gwaith. Yna byddant yn ystyried eich cynhaliaeth plant pan fyddant yn trefnu i dalu eich budd-daliadau.

Sut caiff ‘incwm gwarchodedig’ ei weithio allan?

Byddwn yn gweithio allan lefel o ‘incwm gwarchodedig’ ar gyfer pob rhiant dibreswyl i sicrhau fod ganddynt ddigon o arian i fyw arno ac i gynnal unrhyw ail deulu sydd ganddynt. Os byddai’r swm o gynhaliaeth plant fyddai’n rhaid iddynt ei dalu yn golygu na fyddant yn gallu cadw’r incwm gwarchodedig hwn, yna gallwn leihau’r swm sy’n rhaid iddynt ei dalu. Anelwn at sicrhau nad oes rhaid i’r rhiant dibreswyl dalu mwy na 30% o’u hincwm wythnosol net, fel cynhaliaeth plant. Fodd bynnag, os oes rhaid iddynt glirio dyledion yn deillio o daliadau hwyr neu o fethu taliadau gallant orfod talu hyd at 40% o’u hincwm net wythnosol.

Rydym yn gweithio allan yr incwm gwarchodedig wrth weithio allan y swm o gynhaliaeth plant sy’n rhaid ei dalu. Ni fyddwn yn dweud wrth y rhiant â gofal faint yw’r incwm gwarchodedig oni bai ei fod yn effeithio ar y swm o gynhaliaeth plant fydd yn cael ei dalu.

Caiff incwm gwarchodedig ei weithio allan yn wahanol i incwm i’w eithrio. Byddwn yn ei weithio allan mewn 2 ffordd ac yna’n defnyddio’r swm uchaf fel yr incwm gwarchodedig.

Y ffordd gyntaf byddwn yn gweithio allan yr incwm gwarchodedig

Caiff incwm gwarchodedig ei weithio allan fel 70% o incwm net y rhiant dibreswyl.

Yr ail ffordd o weithio allan yr incwm gwarchodedig

Mae'r ffordd hon yn fwy cymhleth, gan ein bod hefyd yn cynnwys unrhyw incwm o bartner y rhiant dibreswyl os oes ganddynt un. Rydym yn egluro hyn yn y 5 cam nesaf:

1 Rydym yn gweithio allan beth yw cyfanswm 'incwm gwario' cartref y rhiant dibreswyl. Yr incwm gwario yw cyfanswm incwm net y rhiant dibreswyl ac incwm net eu partner (os oes ganddynt un). Mae hefyd yn cynnwys Budd-dal Plant a Chredyd Treth Plant.

2 Yna byddwn yn cyfuno'r canlynol:

- Lwfansau Cymhorthdal Incwm a phremiymau ar gyfer pob oedolyn a phlentyn yng nghartref y rhiant dibreswyl (gan gynnwys llysblant).
- Costau teithio i'r gwaith, wedi eu gweithio allan yn yr un ffordd ag ar gyfer incwm i'w eithrio.
- Costau tai – yn seiliedig ar un o'r canlynol:
  - rhent wythnosol
  - llog morgais wythnosol
  - costau tai mae rhiant dibreswyl yn eu talu am gael byw yng nghartref rhywun arall os na chânt eu cynnal ganddynt, hyd at swm penodol. (Nid yw hyn yr un fath â sut rydym yn gweithio allan y costau tai ar gyfer incwm i'w eithrio.)

- Swm y Dreth Cyngor sy'n rhaid i deulu'r rhiant dibreswyl ei dalu bob wythnos.
- Swm safonol o £30.

3 Rydym yn gweithio allan y gwahaniaeth rhwng yr incwm gwario (cam 1) a'r cyfanswm yng ngham 2.

4 Os yw'r incwm gwario yn gyfartal, neu yn llai na'r cyfanswm yng ngham 2, rydym yn defnyddio'r incwm gwario fel incwm gwarchodedig.

5 Os yw'r incwm gwario yn uwch na'r symiau a gyfunwyd yng ngham 2, yna byddwn yn gweithio allan beth fyddai 15% o'r gwahaniaeth a weithiwyd allan yng ngham 3. Yna byddwn yn cyfuno hwn gyda 15% o'r symiau a gyfunwyd yng ngham 2 i gael cyfanswm yr incwm gwarchodedig.

Byddwn wedyn yn cymharu'r 2 swm o incwm gwarchodedig a weithiwyd allan gan ddefnyddio'r 2 ffordd wahanol. Byddwn yn defnyddio'r swm uwch fel yr incwm gwarchodedig.

Dim ond wrth weithio allan yr incwm gwarchodedig y byddwn yn ystyried incwm partner rhiant dibreswyl. Nid ydym yn disgwyl i bartner rhiant dibreswyl dalu unrhyw beth tuag at y gynhaliaeth plant sy'n rhaid i'r rhiant dibreswyl ei dalu.

Pam eich bod yn gweithio allan ‘incwm asesu’r’ rhiant â gofal?

Rydym yn gweithio allan incwm asesu’r rhiant â gofal oherwydd weithiau bydd ganddynt ddigon o incwm i gyfrannu mwy tuag at gostau byw dyddiol eu plentyn neu blant.

Os oes gan y rhiant â gofal incwm net sy’n uwch na’u hincwm i’w eithrio, bydd ganddynt incwm asesu. Golyga hyn y gallant gyfrannu mwy tuag at gostau byw dyddiol eu plentyn neu blant. Felly efallai byddwn yn lleihau’r swm o gynhaliaeth plant sy’n rhaid i’r rhiant dibreswyl ei dalu er mwyn adlewyrchu hyn.

Nid oes rhaid i’r rhiant â gofal dalu unrhyw gynhaliaeth plant, ond byddant yn cael llai o gynhaliaeth plant oherwydd eu bod yn gallu cyfrannu mwy at gostau byw dyddiol eu plentyn neu blant.

Serch hynny, ni fydd gan sawl rhiant â gofal unrhyw incwm asesu, yn enwedig os ydynt yn cael budd-daliadau sy’n gysylltiedig ag incwm, neu os ydynt yn gweithio ac yn cael Credyd Treth Gwaith.

Pan fyddwn yn gweithio allan y gynhaliaeth angenrheidiol, byddwn yn ychwanegu incwm asesu’r rhiant â gofal i incwm asesu’r rhiant dibreswyl. Os bydd y cyfanswm hwn yn fwy na dwywaith y gynhaliaeth angenrheidiol, yna gallwn leihau’r swm o gynhaliaeth plant sy’n rhaid i’r rhiant dibreswyl ei dalu.

Byddwn yn gweithio allan y swm llawn o gynhaliaeth plant sy'n rhaid ei dalu. Mae hyn yn cynnwys y gynhaliaeth angenrheidiol ac unrhyw swm ychwanegol rydym wedi egluro amdano yn yr adran flaenorol. Yna byddwn yn disgwyl i'r rhiant dibreswyl dalu rhan o'r swm sylfaenol a'r swm ychwanegol sy'n adlewyrchu eu rhan hwy o'r incwm asesu cyfunol.

Yn gyffredinol, ni fyddwn yn ystyried incwm partner y rhiant â gofal, os oes ganddynt un, wrth weithio allan faint o gynhaliaeth plant sy'n rhaid ei dalu. Yr eithriad i hyn yw pan fo gan y rhiant â gofal blentyn neu blant gyda phartner newydd, ac y gall y partner newydd gyfrannu tuag at gostau byw dyddiol y plant hynny. Os felly, gallwn leihau swm yr incwm i'w eithrio, fel yr eglurwyd ar dudalen 20, a gall hyn effeithio ar y swm o incwm asesu sydd gan y rhiant â gofal.

Beth fydd yn digwydd os bydd y plentyn neu'r plant yn aros dros nos yn rheolaidd gyda'r rhiant dibreswyl?

Os bydd y plentyn y mae'r rhiant dibreswyl yn talu cynhaliaeth plant ar eu cyfer yn aros dros nos gyda'r rhiant dibreswyl am o leiaf 104 noson y flwyddyn (2 noson yr wythnos ar gyfartaledd dros y 12 mis diwethaf) neu fwy, yna gelwir hyn yn 'rhannu gofal'.

Golyga hyn y gallwn leihau'r swm o gynhaliaeth plant sy'n rhaid i'r rhiant dibreswyl ei dalu. Bydd y gostyngiad hwn yn cymryd i ystyriaeth y nifer o nosweithiau mae'r plentyn neu blant yn aros gyda'r rhiant dibreswyl.

Os bydd y plentyn neu blant yn treulio amser cyfartal yn aros dros nos gyda'u rhieni (ar gyfartaledd dros y 12 mis diwethaf), yna dywedwn fod y gofal wedi ei rannu 50/50. Pan fydd hyn yn digwydd, gall y rhiant sy'n cael y Budd-dal Plant ar gyfer y plentyn barhau i wneud cais am gynhaliaeth plant, fel y rhiant â gofal.

Wedyn y rhiant arall fyddai'r rhiant dibreswyl. Yna byddwn yn gweithio allan faint o gynhaliaeth plant ddylai gael ei dalu wrth ddefnyddio ein proses arferol, ond byddwn yn ystyried y ffaith bod y ddau riant yn cyfrannu tuag at gostau byw dyddiol y plentyn.

Rhowch wybod i ni os yw'r nifer o nosweithiau mae eich plentyn yn aros dros nos gyda'r rhiant dibreswyl yn newid. Gallwn edrych ar eich achos eto a newid unrhyw swm o gynhaliaeth plant sy'n rhaid ei dalu fel bo angen. Ceir mwy o wybodaeth am pa bryd y byddwn yn edrych eto ar achosion ar dudalen 51.

Beth fydd yn digwydd os na fydd rhiant yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar y CSA i weithio allan cynhaliaeth plant?

Os yw cynhaliaeth plant yn cael ei threfnu trwom ni ac nad yw rhieni yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnom, gallwn weithredu. Yn ogystal â'r camau a eglurir ar dudalen 10, gallwn wneud y canlynol:

- Os na fydd y **rhiant â gofal** yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnom i weithio allan cynhaliaeth plant, gallwn gau'r achos ac ni fydd y rhiant â gofal yn cael cynhaliaeth plant.
- Os na fydd y **rhiant dibreswyl** yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnom i weithio allan cynhaliaeth plant, neu i edrych eto ar y swm o gynhaliaeth plant sy'n rhaid ei dalu, gallwn wneud asesiad cynhaliaeth dros dro.

Gallwn wneud gwahanol fathau o asesiadau cynhaliaeth dros dro. Mae'r un mwyaf cyffredin yn sefydlu bod y swm sy'n rhaid ei dalu un a hanner gwaith gwerth y gynhaliaeth sydd ei hangen. Ond os credwn y gall y rhiant dibreswyl fforddio i dalu mwy na hyn, gallwn wneud asesiad cynhaliaeth dros dro am swm sydd yn uwch na hyn.

Os yw'r rhiant dibreswyl yn hunangyflogedig ac, heb unrhyw fai arnynt hwy, ni allant roi tystiolaeth lawn o'u hincwm pan ofynnwn amdani, gallwn ofyn iddynt dalu hyd at £30 o gynhaliaeth plant yr wythnos.

Mae o fudd i'r rhiant dibreswyl roi'r wybodaeth sydd ei hangen arnom i weithio allan cynhaliaeth plant pan fyddwn yn gofyn amdani fel y gallwn weithio allan y swm cywir o gynhaliaeth plant o'r cychwyn cyntaf.

Beth fydd yn digwydd os bydd y rhiant dibreswyl wedyn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar y CSA?

Pan fydd gennym y wybodaeth sydd ei hangen arnom gan y rhiant dibreswyl, byddwn yn gweithio allan y swm o gynhaliaeth plant sy'n rhaid iddynt ei dalu wrth ddefnyddio ein proses safonol. Yna, fel arfer, bydd y rhiant dibreswyl yn gorfod talu'r swm newydd o gynhaliaeth plant o'r un dyddiad a phryd gwnaed yr asesiad cynhaliaeth dros dro.

Os yw'r swm newydd o gynhaliaeth plant yn llai na'r asesiad cynhaliaeth dros dro, byddwn yn lleihau'r swm sy'n rhaid i'r rhiant dibreswyl ei dalu hyd nes caiff unrhyw ordaliadau eu cynnwys yn llawn. Ni fydd y rhiant dibreswyl yn cael unrhyw arian yn ôl.

Os yw'r swm newydd o gynhaliaeth plant yn fwy na'r asesiad cynhaliaeth dros dro, byddwn yn cynyddu'r swm y mae'n rhaid i'r rhiant dibreswyl ei dalu hyd nes byddwn wedi adennill unrhyw dandaliadau.

Oes unrhyw ffactorau eraill gall y CSA eu hystyried wrth weithio allan cynhaliaeth plant?

Oes, mae rhai ffactorau eraill y gallwn eu cymryd i ystyriaeth wrth weithio allan cynhaliaeth plant. Gelwir hyn yn ‘wyriad’ oddi wrth y broses safonol a ddefnyddiwn i weithio allan cynhaliaeth plant.

Dangosir y ffactorau eraill hyn isod.

Mae gennych gostau gofalu eraill

- Rydych yn gyfrifol am blant eich partner neu gynbartner nad ydynt yn blant i chi, ond sydd yn byw gyda chi, ac sydd wedi byw gyda chi ers cyn 5 Ebrill 1995.
- Mae gennych gostau ychwanegol am fod gennych chi, neu fod gan aelod o’ch teulu, salwch tymor hir neu anabledd. Serch hynny os ydych yn rhiant â gofal a bod gan y plentyn anabledd sy’n golygu costau ychwanegol, ni allwch wneud cais am gyfarwyddyd gwyro ar gyfer y costau hyn. Dylech wneud cais i lys ynadon yng Nghymru neu Lloegr, neu i lys siryf yn yr Alban i ofyn am orchymyn llys i ddyfarnu ‘cynhaliaeth plant ychwanegol’. Gallwch gysylltu â’ch canolfan Cyngor Ar Bopeth leol am fwy o wybodaeth am sut i wneud cais am gynhaliaeth ychwanegol.

Mae gennych gostau teithio uchel

- Mae gennych gostau teithio i'r gwaith uchel ac nid yw'r lwfans yn eich incwm i'w eithrio yn cwrdd â hwy yn llawn (neu nid ydych yn gymwys am lwfans yn eich asesiad cynhaliaeth).
- Rydych yn rhiant dibreswyl ac mae gennych gostau uchel i deithio i weld y plant rydych yn talu cynhaliaeth plant ar eu cyfer.

Mae gennych drefniadau ariannol gyda'r rhiant arall yn barod

- Rydych yn dal yn ad-dalu dyled sy'n deillio'n ôl i'r adeg cyn i chi wahanu oddi wrth eich partner a bod y ddyled honno er budd y teulu neu aelod o'r teulu ar y pryd.
- Rydych yn rhiant dibreswyl ac mae gennych drefniant ariannol a gychwynnodd cyn 5 Ebrill 1993 na allwch nawr stopio ei dalu ac sy'n cynnwys neu'n cyfeirio at gytundeb cynhaliaeth ysgrifenedig neu orchymyn llys ar gyfer eich plant.
- Roeddech yn rhan o setliad yn ymwneud ag eiddo neu gynilion a buddsoddiadau (sydd weithiau'n cael ei alw'n setliad toriad llwyr neu 'clean break') cyn 5 Ebrill 1993 a:
  - ni chafodd ei gynnwys o gwbl wrth i ni weithio allan eich incwm i'w eithrio, neu
  - cafodd ei gynnwys wrth i ni weithio allan eich incwm i'w eithrio, ond nid oedd y swm a ddefnyddiwyd gennym yn ddigon uchel.

Rydych yn credu bod gan y rhiant arall amgylchiadau eithriadol

- Rydych yn credu bod gan y rhiant arall arian, eiddo neu rywbeth arall maent yn berchen arno, a ddylai fod yn darparu incwm ond nad yw wedi ei ystyried yn eu hincwm net.
- Rydych yn credu bod y rhiant arall yn rhoi arian neu asedau i rywun arall er mwyn ein rhwystro rhag eu defnyddio yn ein hasesiad cynhaliaeth plant.
- Mae gan y rhiant arall gostau tai neu gostau teithio i'r gwaith, sydd yn eich tyb chi, yn afresymol o uchel, neu gallai rhan neu swm llawn eu costau tai gael ei dalu gan eu partner newydd.
- Ymddengys fod gan y rhiant arall ffordd o fyw a fyddai'n gweddu'n well i rywun gydag incwm cryn uwch na'r incwm rydym wedi ei ddefnyddio i weithio allan cynhaliaeth plant.

Os bydd rhiant wedi dweud wrthym fod unrhyw o'r ffactorau hyn yn gymwys yn eu hachos hwy, efallai ein bod eisoes wedi cynnwys gwyriad yn y swm o gynhaliaeth plant sy'n rhaid ei dalu.

Os credwch fod un o'r ffactorau hyn yn gymwys i chi ond nad yw wedi ei gynnwys ar hyn o bryd yn y swm o gynhaliaeth plant rydych yn ei dalu neu'n ei gael, dylech roi gwybod i ni. Yna gallwn edrych ar eich achos eto, ac os bydd angen, gallwn newid y swm o gynhaliaeth plant sy'n rhaid ei dalu. Gall y swm gynyddu, lleihau neu aros yr un fath. Gallwch gael mwy o wybodaeth am bryd y byddwn yn edrych eto ar achosion ar dudalen 51.

Sut gellir talu cynhaliaeth plant?

Y ffordd hawsaf i'r rhiant dibreswyl dalu cynhaliaeth plant yw yn uniongyrchol i'r rhiant â gofal. Gall hyn gael ei wneud drwy archeb sefydlog, golyga hyn fod y rhiant dibreswyl yn sefydlu taliad rheolaidd yn uniongyrchol o'u cyfrif banc neu gymdeithas adeiladau i gyfrif y rhiant â gofal.

Nid yw hyn yr un fath â threfniad preifat, gan ein bod wedi gweithio allan y swm sy'n rhaid ei dalu a gallwn gymryd camau os na fydd y rhiant dibreswyl yn talu.

Os na fydd rhieni am dalu yn y ffordd hon, bydd rhaid i daliadau gael eu gwneud drwom ni. Yn y sefyllfa hon:

- os yw'r rhiant dibreswyl yn **gyflogedig**, byddwn fel arfer naill ai yn gofyn iddynt ein talu drwy ddebyd uniongyrchol, neu byddwn yn cytuno gyda hwy ein bod yn tynnu'r arian yn uniongyrchol o'u cyflog gan ddefnyddio gorchymyn didynnu o enillion
- os yw'r rhiant dibreswyl yn **hunangyflogedig**, byddwn fel arfer yn gofyn iddynt sefydlu debyd uniongyrchol i'n talu
- os yw'r rhiant dibreswyl yn **cael budd-daliadau yn ymwneud ag incwm**, byddwn fel arfer yn cymryd yr arian yn uniongyrchol o'u budd-daliadau cyn iddynt eu derbyn.

Pan fyddwn yn cael y taliad gan y rhiant dibreswyl, byddwn yn talu'r swm sy'n ddyledus i'r rhiant â gofal drwy ei drosglwyddo i'w cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu. Anelwn at drosglwyddo cynhaliaeth plant o fewn wythnos o'i dderbyn.

Gallwn hefyd drefnu i'r rhiant dibreswyl wneud eu taliad cyntaf, neu un taliad arbennig, gyda cherdyn debyd neu gerdyn credyd neu drwy fancio ar-lein.

Os nad oes gan un o'r rhieni gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu ac na allant agor cyfrif er mwyn talu neu gael cynhaliaeth plant, gallant drafod gyda ni ffyrdd eraill o gael neu dalu cynhaliaeth.

Beth fydd yn digwydd os yw'r rhiant â gofal yn gymwys i gael cynhaliaeth plant ar gyfer eu plant gan wahanol rieni dibreswyl?

Os ydych yn rhiant â gofal, gallwch wneud cais i gael cynhaliaeth plant drwom ni gan fwy nag un rhiant dibreswyl. Yn yr achosion hyn, byddwn yn gweithio allan faint ddylai pob rhiant ei dalu ar wahân. Yn dibynnu ar sut bydd pob rhiant dibreswyl eisiau talu cynhaliaeth plant, gallech gael:

- un taliad gennym ni sy'n cynnwys yr holl daliadau gwahanol
- taliadau ar wahân yn dibynnu ar ba mor aml y cytunwyd y dylai pob rhiant dalu cynhaliaeth plant, neu
- taliadau ar wahân yn uniongyrchol gan bob rhiant.

Beth fydd yn digwydd os yw'r rhiant dibreswyl yn rhoi arian i'r rhiant â gofal am reswm arall?

Ambell waith, bydd rhiant dibreswyl sydd fel arfer yn talu cynhaliaeth plant drwom ni yn cytuno i dalu arian yn syth i neu ar ran y rhiant â gofal am ryw reswm arall. Os ydynt yn gwneud hyn, gallant ofyn i ni gyfri hwn tuag at y swm o gynhaliaeth plant sy'n rhaid iddynt dalu neu ar gyfer unrhyw ô l-ddyledion sydd ganddynt.

Efallai gallwn gyfri'r taliad hwn, gyda chytundeb y rhiant â gofal, am un neu f wy o'r rhesymau canlynol:

- i dalu morgais neu fenthyciad a chafodd ei gymryd allan i brynu neu i dalu am atgyweiriadau hanfodol neu welliannau i'r cartref ble y mae'r plentyn yn byw ac sydd wedi'i diogelu ar y cartref hwnnw
- i dalu rhent neu dreth cyngor ar gyfer y cartref ble y mae'r plentyn yn byw
- i dalu am gostau nwy, dŵr neu drydan ar gyfer y cartref ble y mae'r plentyn yn byw, neu
- i wneud atgyweiriadau hanfodol i'r system gwresogi neu adeiladwaith y cartref ble y mae'r plentyn yn byw

Os yw'r rhiant dibreswyl yn rhoi arian rheolaidd i'r rhiant â gofal am ryw reswm arall – fel i dalu'r biliau pob mis – dylai'r ddau riant meddwl am newid y ffordd maent wedi trefnu eu cynhaliaeth plant. Er enghraifft, gall rhieni gwneud trefniant preifat ble nad oes rhaid iddynt ddefnyddio'r CSA. Am fwy o wybodaeth cysylltwch ag Opsiynau Cynhaliaeth Plant trwy ymweld â **www.cmoptions.org** neu gallwch eu ffonio ar **0800 988 0988** neu **0800 988 9888** (ffôn testun).

Pryd a pham byddwch yn edrych eto ar faint o gynhaliaeth plant sy'n rhaid ei dalu?

Fel arfer byddwn yn edrych eto ar y swm o gynhaliaeth plant sy'n rhaid ei dalu pan fydd y naill riant yn gofyn i ni wneud hyn am eu bod yn credu bod y wybodaeth a ddefnyddiwyd i'w weithio allan wedi newid.

Byddwn yn cysylltu â'r ddau riant i gadarnhau beth sydd wedi newid ac yna byddwn yn defnyddio ein proses safonol i weithio allan y swm.

Os byddwn angen mwy o wybodaeth neu dystiolaeth am beth sydd wedi newid, byddwn yn cysylltu gydag un neu'r ddau riant.

Unwaith byddwn yn gweithio allan faint yw'r swm newydd, byddwn yn anfon llythyr at y ddau riant yn egluro:

- yn union ba wybodaeth rydym wedi ei defnyddio i weithio allan y swm newydd, a
- beth allant ei wneud os byddant yn anghytuno â'r swm hwn.

Tra ein bod yn edrych ar yr achos eto, bydd yn rhaid i'r rhiant dibreswyl dalu'r gynhaliaeth plant yn llawn ac ar amser.

Fel arfer byddwn yn edrych eto ar achos os cawn wybodaeth sy'n golygu unrhyw o'r canlynol:

- Byddai'r swm o gynhaliaeth plant sy'n rhaid ei dalu yn newid £10 neu fwy yr wythnos, er enghraifft, os yw incwm un o'r rhieni wedi newid.
- Y tro diwethaf i ni weithio allan faint o gynhaliaeth plant oedd yn rhaid ei dalu, cynhwyswyd swm ar gyfer 'incwm gwarchodedig', a byddai'r swm o gynhaliaeth fyddai'n rhaid i'r rhiant dibreswyl ei dalu yn cynyddu £5 neu fwy yr wythnos, neu'n gostwng £1 neu fwy yr wythnos. (Caiff incwm gwarchodedig ei egluro ar dudalen 35.)
- Mae gan un o'r rhieni blentyn newydd yn bwy gyda hwy, ac nid oes angen i gynhaliaeth plant gael ei thalu ar gyfer y plentyn hwnnw, a golyga hyn bod y swm o gynhaliaeth plant i'w dalu yn newid £1 neu fwy'r wythnos.
- Mae'r rhiant dibreswyl neu eu partner yn dechrau cael budd-daliadau yn ymwneud ag incwm (Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ag incwm) ac nad oes ganddynt unrhyw incwm arall.
- Nid yw'r rhiant dibreswyl neu eu partner bellach yn cael budd-daliadau yn ymwneud ag incwm.
- Mae'r rhieni nawr yn rhannu'r gofal o'r plant. (Eglurwn rannu gofal ar dudalen 40.)

- Mae plentyn gafodd ei gynnwys y tro diwethaf y gweithiwyd allan y swm o gynhaliaeth plant (naill ai am fod y rhiant dibreswyl wedi bod yn talu cynhaliaeth plant ar ei gyfer, neu am eu bod yn byw gyda'r rhiant dibreswyl) yn gadael neu'n ymuno â chartref y rhiant â gofal, neu'n gadael ysgol ac yn dechrau gweithio.
- Rydym yn cael gwybodaeth gan gorff fel y Ganolfan Byd Gwaith, Cyllid a Thollau EM neu'r llys sy'n golygu ein bod yn credu y dylai swm y gynhaliaeth plant newid.

Mae gennym hawl i ofyn i'r ddau riant am unrhyw dystiolaeth o newid i'w hamgylchiadau. Er enghraifft, efallai byddwn yn gofyn am weld slipiau cyflog i brofi bod enillion y rhieni wedi newid, neu gallwn ofyn i'r ddau riant gadw dyddiadur i gofnodi pryd bydd y plentyn yn aros dros nos gyda'r rhiant dibreswyl.

Beth fydd yn digwydd ar ôl i ni edrych eto ar faint o gynhaliaeth plant sy'n rhaid ei dalu?

Byddwn yn anfon llythyr at y ddau riant yn dweud wrthynt os yw'r swm o gynhaliaeth plant sy'n rhaid ei dalu wedi newid ai peidio. Os yw wedi newid, byddwn yn dweud wrthych y swm newydd a phryd y dylid gwneud taliadau.

Beth fydd yn digwydd os na fydd rhiant dibreswyl yn talu?

Rhieni dibreswyl sy'n gyfrifol am dalu cynhaliaeth plant yn llawn ac ar amser. Os trefnwyd eich cynhaliaeth plant drwom ni, ac nad yw'r rhiant dibreswyl yn talu yn llawn ac ar amser, byddwn yn cymryd camau i sicrhau eu bod yn gwneud taliadau cyn gynted â phosibl.

Mae'r camau a gymerwn yn dibynnu ar y sefyllfa, ond gallwn:

- cymryd arian yn uniongyrchol o enillion y rhiant dibreswyl fel cyflogai ydynt yn gweithio ac os nad ydynt yn talu yn y ffordd hon yn barod
- cymryd arian yn uniongyrchol o gyfrif banc neu gymdeithas adeiladu'r rhiant dibreswyl, neu
- cymryd camau trwy'r llysoedd.

Gallwn ddefnyddio mwy nag un cam y tro.

Gall cymryd camau drwy'r llysoedd fod yn ddrud a gall olygu y bydd y rhiant dibreswyl:

- yn gorfod talu eu costau cyfreithiol eu hunain a'n costau cyfreithiol ni, yn ogystal â'r gynhaliaeth plant sy'n ddyledus ganddynt
- yn colli eu trwydded gyrru am hyd at 2 flynedd
- mynd i'r carchar.
- yn cael ei gorfodi i werthu eu cartref neu asedau eraill

Yr unig eithriad i'r broses hon yw os bydd y rhiant dibreswyl yn cysylltu â ni **cyn** iddynt orfod gwneud eu taliad nesaf i roi gwybod i ni y bydd y taliad wedi ei oedi. Bydd yn **rhaid** i'r rhiant dibreswyl egluro pam na allant dalu yn llawn ac ar amser.
Os nad oes rheswm da, gallwn barhau i gymryd y camau uchod. Os gall y rhiant dibreswyl roi rheswm da i ni, byddwn yn rhoi gwybod i'r rhiant â gofal ac yn cytuno ar sut i gael unrhyw arian sydd heb ei dalu.

Weithiau gall y rhiant dibreswyl fod yn hwyr yn gwneud taliad neu'n methu taliad. Er mwyn eu helpu i ddatrys hyn, gall y rhiant dibreswyl ein ffonio a thalu gyda cherdyn credyd neu gerdyn debyd neu drwy fancio ar-lein.

Os nad ydynt yn gwneud taliad yn y ffordd hon, bydd rhaid iddynt dalu swm uwch o gynhaliaeth plant ar y taliad rheolaidd nesaf y maent yn wneud. Gelwir hyn yn talu 'ôl-ddyledion'

Cofiwch os na fyddwch yn gwneud taliadau llawn ar amser, gall hyn achosi caledi i'ch plant.

Os hoffech wybod mwy am beth sy'n digwydd os na fydd rhiant dibreswyl yn talu, dylech gael copi o'n taflen *Pa gamau gall yr Asiantaeth Cynnal Plant eu cymryd os na fydd rhieni'n talu* (CSL306W). Ewch i'r dudalen olaf am fanylion. Hefyd ceir mwy o wybodaeth ar ein gwefan, sef **www.asiantaethcynnalplant.gov.uk**.

Beth fydd yn digwydd os byddaf yn anghytuno â phenderfyniad y CSA?

Os byddwch yn credu fod y cyfrifiad cynhaliaeth plant yn anghywir neu nad yw bellach yn gywir, gallwch ofyn i ni edrych arno eto.

Byddwn yn adolygu'r penderfyniad. Os byddwn yn darganfod bod y penderfyniad yn anghywir, byddwn yn ei newid. Os na allwn ei newid, byddwn yn dweud wrthych pam.

Byddwn yn anfon llythyr atoch yn egluro ein penderfyniad a cheisio ateb unrhyw gwestiynau fydd gennych amdano. Os credwch fod ein penderfyniad i newid eich cynhaliaeth plant neu ei chadw heb ei newid yn anghywir, dylech ein ffonio neu ysgrifennu atom i ddweud pam. Bydd y cyfeiriad a rhif ffôn ar y llythyr rydym wedi ei anfon atoch.

Os byddwn yn penderfynu cynyddu neu leihau eich taliad, gall y taliad newydd ddechrau o'r un dyddiad â phryd dechreuodd eich cynhaliaeth plant os byddwch wedi gofyn i ni adolygu'r cyfrifiad o fewn mis o gael gwybod faint yw'ch cynhaliaeth plant. Yn yr amgylchiadau hyn:

- gallai'r rhiant dibreswyl orfod gwneud taliadau ychwanegol, neu
- gallai'r rhiant â gofal orfod ad-dalu rhywfaint o'r gynhaliaeth maent wedi ei gael.

Os ydym wedi edrych ar ein cyfrifiad eto ac eich bod yn anghytuno gyda phenderfyniad yr adolygiad, yna gallwch apelio yn ei erbyn. Mae'n rhaid i chi wneud hyn o fewn mis o gael llythyr gennym yn dweud wrthych am benderfyniad yr adolygiad.

Os ydych am gael gwybod mwy ynglŷn â gofyn i ni edrych ar benderfyniad eto neu apelio yn erbyn ein penderfyniad, dylech gael copi o'n taflen *Sut gallaf apelio yn erbyn penderfyniad cynhaliaeth plant?* (CSA2006AW). Ewch i'r dudalen olaf am fanylion.

Ble gallaf gael mwy o help a gwybodaeth?

Os ydych eisiau gwybod mwy am gynhaliaeth plant a sut rydym yn ei gweithio allan, ewch i'n gwefan yn **www.asiantaethcynnalplant.gov.uk**. Gallwch lawr-lwytho ein taflenni o'r wefan.

Os byddwch am siarad gyda rhywun am eich achos, gallwch ffonio ein llinell gymorth genedlaethol ar **0845 713 3133**, neu ein llinell gymorth Gymraeg ar **0845 713 8091**. Mae'r llinell gymorth genedlaethol ar agor o 8am i 8pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener, ac o 9am i 5pm ar ddydd Sadwrn. Mae'r llinell gymorth Gymraeg ar agor o 9am i 5pm ar ddydd Llun i ddydd Gwener.

Sicrhewch fod eich Rhif Yswiriant Gwladol wrth law pan fyddwch yn ffonio.

Efallai y caiff rhai galwadau eu recordio er mwyn i ni gadw golwg ar ein gwasanaethau a hyfforddi staff.

Gwasanaethau ffôn testun

Os oes gennych anawsterau gyda siarad neu glywed, mae gwasanaeth ffôn testun ar gael ar **0845 713 8924**. Gallwch gysylltu â ni yn Gymraeg ar ffôn testun hefyd – y rhif yw **0845 713 8099**.

Mae ffôn testun ar gyfer pobl sy'n ei chael yn anodd i siarad neu glywed yn glir. Os nad oes gennych ffôn testun, efallai y bydd un ar gael mewn rhai llyfrgelloedd neu swyddfeydd Cyngor Ar Bopeth. **Nid** yw ffôn testun yn gallu derbyn negeseuon testun o ffôn symudol.

Ieithoedd eraill

Os nad Cymraeg neu Saesneg yw eich iaith gyntaf, gallwch ddefnyddio eich cyfieithydd eich hun neu un a ddarperir gennym ni.

Costau ffonio

Ni ddylai galwadau o linellau daear BT i rifau **0845** gostio mwy na 4c y munud. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu mwy os byddwch yn defnyddio cwmni ffôn arall neu ffôn symudol, neu os ydych yn ffonio o dramor. Gall galwadau o ffôn symudol gostio hyd at 40c y munud, felly dylech gysylltu â darparwr eich gwasanaeth i gael gwybod faint yw cost y galwadau hyn.

Gwybodaeth ar ffurfiau eraill

Mae'r daflen hon hefyd ar gael mewn ieithoedd eraill, mewn Braille ac ar dâp sain. Gallwch gael gwybodaeth ar y ffurfiau hyn ar-lein neu drwy gysylltu â'n llinellau cymorth.

Mae gennym hefyd fersiynau print bras o'r daflen hon sydd ar gael i chi ei lawr-lwytho o'n gwefan, sef **www.asiantaethcynnalplant.gov.uk**.

Ein taflenni

I rieni sy'n byw ar wahân
(Cyfeirnod: CSA2001W) I bob rhiant

Sut i apelio
(Cyfeirnod: CSA2006(A)W) I bob rhiant

Talu cynhaliaeth plant yn uniongyrchol o'ch enillion
(Cyfeirnod: CSA2034W) I rieni dibreswyl

Nodiadau i rieni dibreswyl sy'n hunangyflogedig
(Cyfeirnod: CSA2095W) I rieni dibreswyl

Pa gamau gall yr Asiantaeth Cynnal Plant eu cymryd os na fydd rhieni'n talu?
(Cyfeirnod: CSL306W) I bob rhiant

Sut gallaf gwyno am y gwasanaeth a gaf gan yr Asiantaeth Cynnal Plant?
(Cyfeirnod: CSL308W) I bob rhiant

Mae fy achos yn symud i'r cynllun cynhaliaeth plant a gyflwynwyd yn 2003 – beth fydd yn newid?
(Cyfeirnod: CSL310W) I unrhyw riant y mae eu hachos yn cael ei drosglwyddo i'r cynllun cyfredol

Sut mae'r Asiantaeth Cynnal Plant yn defnyddio ac yn storio gwybodaeth?
(Cyfeirnod: CSL311W) I bob rhiant

Geirfa

Apelio

Y broses o ofyn i dribiwnlys annibynnol edrych ar eich achos os na fyddwch yn fodlon â'r penderfyniad a wnaethom.

Asesiad cynhaliaeth dros dro

Os na fydd y rhiant dibreswyl yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnom i weithio allan faint o gynhaliaeth plant sy'n rhaid ei dalu, gallwn wneud asesiad cynhaliaeth dros dro. Golyga'r asesiad hwn y gallai'r rhiant dibreswyl orfod talu cynhaliaeth plant ar gyfradd uwch hyd nes byddant yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnom i weithio allan y swm cywir o gynhaliaeth plant.

Budd-dal Plant

Taliad rheolaidd a wneir i unrhyw un sy'n magu plant. Fe'i telir am bob plentyn sydd:

- o dan 16 oed
- o dan 19 oed (dan 20 oed mewn rhai achosion) ac sydd mewn addysg llawn amser yn dilyn cwrs nad yw'n uwch na Safon Uwch neu safon gyfatebol neu yn dilyn rhaglen a ariennir gan y Llywodraeth, neu
- yn 16 neu 17 mlwydd oed ac sydd newydd adael yr ysgol ac wedi cofrestru ar gyfer gwaith neu hyfforddiant gyda'r Gwasanaeth Gyrfaoedd neu Gyrfa Cymru neu rywbeth tebyg.

Budd-dal yn ymwneud ag incwm

Yn holl daflenni'r CSA, budd-daliadau yn ymwneud ag incwm yw Cymhorthdal Incwm, Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn ymwneud ag incwm.

Cynhaliaeth angenrheidiol (y gynhaliaeth sydd ei hangen)

Y swm o arian sydd ei angen i dalu am y gost sylfaenol o ofalu am blentyn (neu blant) o ddydd i ddydd. Caiff hefyd ei alw'n 'gofyniad cynhaliaeth'.

Cynhaliaeth plant

Arian a delir gan y rhiant dibreswyl i'r rhiant â gofal i helpu i dalu am gostau byw eu plentyn o ddydd i ddydd.

Gorchymyn didynnu o enillion

Un o'r ffyrdd y byddwn yn ei ddefnyddio fel arfer er mwyn trefnu taliadau os yw'r rhiant dibreswyl yn gyflogedig. O dan orchymyn didynnu o enillion, byddwn yn gofyn i gyflogwr y rhiant dibreswyl gymryd cynhaliaeth plant yn uniongyrchol o enillion y rhiant dibreswyl a'i hanfon atom.

Gallwn hefyd drefnu gorchymyn didynnu o enillion os yw'r rhiant dibreswyl yn gyflogedig a'u bod heb gadw at ddulliau talu eraill neu os byddant wedi methu â chytuno ar ddull talu.

Gwyro

Mae gwyro yn ein galluogi i gymryd rhai ffactorau eraill i ystyriaeth wrth weithio allan cynhaliaeth plant, fel costau ychwanegol sydd gan y rhiant dibreswyl er mwyn ymweld â'r plentyn. Caiff y gwyriadau hyn eu galw yn gyfarwyddiadau gwyro hefyd.

Incwm asesu (incwm y gellir ei asesu)

Yr incwm asesu, neu 'incwm y gellir ei asesu', yw'r incwm net, llai yr incwm i'w eithrio. Defnyddiwn incwm asesu i weithio allan y swm o gynhaliaeth plant sy'n rhaid ei dalu. Byddwn yn gwneud hyn drwy ddefnyddio fformiwla safonol a'r incwm asesu ar gyfer y rhiant dibreswyl a'r rhiant â gofal.

Incwm i'w eithrio

Y swm o incwm wythnosol net y caiff pob rhiant ei gadw er mwyn talu am eu costau byw sylfaenol, gan gynnwys talu am gostau byw unrhyw o'u plant eu hunain sy'n byw gyda hwy.

Incwm gwarchodedig

Rydym yn gweithio allan swm gofynnol o incwm wythnosol ar gyfer y rhiant dibreswyl er mwyn sicrhau bod ganddynt ddigon yn weddill i fyw arno, ac i gynnal unrhyw ail deulu sydd ganddynt, ar ôl talu cynhaliaeth plant. Gelwir y swm hwn yn incwm gwarchodedig.

Incwm net

Swm yr incwm (cyflog fel arfer) wythnosol sy'n weddill ar ôl tynnu pethau fel:

- treth incwm
- Yswiriant Gwladol, a
- hanner unrhyw swm a delir i mewn i gynllun pensiwn galwedigaethol neu bersonol. Os sefydlwyd y pensiwn er mwyn talu morgais, dim ond 37.5% o'r arian a delir i mewn i'r cynllun pensiwn gaiff ei dynnu o'r incwm.

Gall incwm hefyd gynnwys rhai budd-daliadau, credydau treth a phensiynau galwedigaethol neu bersonol. Mae bonysau a chomisiwn hefyd yn cyfrif fel cyflog.

Rydym yn cyfrif Credyd Treth Gwaith fel incwm os yw enillion y **rhiant dibreswyl** yn fwy nag enillion eu partner. Os bydd enillion y rhiant dibreswyl ac enillion y partner yr un fath, byddwn yn cyfrif hanner y Credyd Treth Gwaith yn y cyfrifiad cynhaliaeth plant. Ni fyddwn yn cyfrif Credyd Treth Gwaith fel incwm os yw enillion y rhiant dibreswyl yn llai nag enillion eu partner.

Plentyn

At ddibenion cynhaliaeth plant, mae plentyn yn golygu unrhyw un sydd o dan 16 oed, neu rywun sydd rhwng 16 a 19 oed:

- sydd ddim nawr, nac erioed wedi bod yn briod neu mewn perthynas sifil, ac
- sydd mewn addysg llawn amser nad yw'n addysg uwch.

Fodd bynnag, mewn rhai achosion, gall rhywun o dan 19 oed gael eu hystyried fel plentyn at ddibenion cynhaliaeth plant hyd yn oed os ydynt mewn addysg llawn amser nad yw'n addysg uwch.

Rhiant â gofal

Y rhiant neu'r gofalwr sy'n byw gyda'r plentyn fel arfer ac sydd felly yn talu am y rhan fwyaf o gostau byw y plentyn o ddydd i ddydd. Mewn rhai achosion gall fod yn nain, taid, gwarcheidwad neu'n aelod arall o'r teulu – sef y 'person â gofal', yn hytrach na'r 'rhiant â gofal'.

Rhiant dibreswyl

Y rhiant nad yw'n byw gyda'r plentyn fel arfer.

Mae taflenni'r CSA hefyd ar gael mewn ieithoedd eraill, mewn print bras, mewn Braille ac ar dâp sain.

Gallwch gael unrhyw o'r taflenni hyn:

- trwy ffonio **0845 713 3133** (mae'r llinell ar agor o 8am i 8pm o ddydd Llun i ddydd Gwener ac o 9am i 5pm ar ddydd Sadwrn)
- trwy ffonio'r Uned Gymraeg ar **0845 713 8091** (mae'r llinell ar agor o 9am i 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener)
- trwy ddefnyddio ffôn testun ar **0845 713 8924**, neu
- o'n gwefan sef **www.asiantaethcynnalplant.gov.uk**

Ble rhoddir rhifau ffôn testun, mae'r rhain ar gyfer pobl sy'n ei chael yn anodd siarad neu glywed yn glir. Os nad oes gennych ffôn testun, efallai y bydd un ar gael mewn rhai llyfrgelloedd neu swyddfeydd Cyngor Ar Bopeth. Nid yw ffôn testun yn gallu derbyn negeseuon testun o ffôn symudol.

CSA2024W
Hydref 2009
(h) Asiantaeth Cynnal Plant
Gwasanaeth a ddarperir gan y Comisiwn Trefnu a Gorfodi Cynhaliaeth Plant
ISBN: 978-1-84763-529-7
Cyf COI: 296094